**Adroddiad i'r:** **Cyngor Llawn**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **14 Chwefror 2017**

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** **Y Cynghorydd Bobby Feeley / Nicola Stubbins**

**Awdur yr Adroddiad:** **Gwynfor Griffiths/James Wood** (yn seiliedig ar fersiwn Gogledd Cymru a gynhyrchwyd gan Jenny Williams, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)

**Teitl:** **Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru**

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth gyffredinol am yr Asesiad Poblogaeth drafft ar gyfer Gogledd Cymru, a gynhyrchwyd mewn partneriaeth gyda; y pum Awdurdod Lleol arall yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Ceisio cymeradwyaeth y Cyngor Sir ar gyfer Asesiad Poblogaeth drafft Gogledd Cymru cyn i'r fersiwn derfynol gael ei chynhyrchu erbyn 1 Ebrill 2017. Disgwylir i'r Asesiad wneud cyfraniad sylweddol i ddealltwriaeth ehangach o; anghenion ein cymunedau, pa wasanaethau sydd ar waith i ddiwallu'r anghenion hynny a pha fylchau sydd mewn darpariaeth.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod Aelodau yn ystyried yr Asesiad Poblogaeth drafft a'i gymeradwyo wrth aros i'r fersiynau terfynol gael eu cynhyrchu. Mae crynodeb o'r asesiad ynghlwm wrth yr adroddiad hwn (Atodiad 2) ac mae'r fersiwn lawn, sydd tua 350 tudalen, wedi'i hanfon drwy e-bost i aelodau unigol y Cyngor Llawn.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Rhaid i'r Asesiad Poblogaeth gael ei gynhyrchu ar sail gyfreithiol dan Adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gofal a Chefnogaeth (Asesiad Poblogaeth) Cymru 2015. Rhaid ei gynhyrchu ar y cyd gan y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd Lleol. Pan fydd wedi'i gwblhau, rhaid iddo gael ei gyhoeddi ar ein gwefan a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

4.2 Mae pecyn gwaith a gynhyrchwyd gan Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn disgrifio pwrpas yr Asesiad Poblogaeth fel a ganlyn;

"Bydd yr asesiad poblogaeth yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u datblygu mewn ffordd effeithlon ac effeithiol gan bartneriaid sector cyhoeddus i hyrwyddo llesiant pobl a chanddynt anghenion gofal a chymorth. Bydd yr asesiad yn…galluogi awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i ganolbwyntio ar ymagweddau at ofal a chymorth sy'n atal anghenion rhag digwydd neu waethygu. Bydd yn darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol i gefnogi penderfyniadau am adnoddau a'r gyllideb; gan sicrhau bod gwasanaethau a chanlyniadau wedi'u targedu ac yn gynaliadwy, yn effeithiol ac yn effeithlon."

4.3 Mae Adran 14 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (2014) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd i gyd-asesu:

a) Faint o bobl sydd yn ardal yr awdurdod lleol sydd angen gofal a chefnogaeth
b) Faint o ofalwyr sydd yn ardal yr awdurdod lleol sydd angen cefnogaeth
c) Faint o bobl sydd yn ardal yr awdurdod lleol nad yw eu hanghenion gofal a chefnogaeth yn cael eu cwrdd
d) Yr amrywiaeth a'r lefel o wasanaethau sydd angen er mwyn cwrdd anghenion gofal a chefnogaeth pobl yn ardal yr awdurdod lleol
e) Yr amrywiaeth a'r lefelau o wasanaethau sydd eu hangen er mwyn cwrdd y gofynion yn Adran 15(2) (gwasanaethau atal) yn ardal yr awdurdod lleol
f) Y camau gweithredu sydd eu hangen er mwyn darparu'r amrywiaeth a'r lefel o wasanaethau a nodwyd yn unol â pharagraffau (d) ac (e) drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.4 Rhaid i'r adroddiad gwmpasu'r tair thema hyn o leiaf: plant a phobl ifanc, pobl hŷn; anableddau iechyd / corfforol; anableddau dysgu/awtistiaeth; iechyd meddwl; nam ar y synhwyrau; gofalwyr sydd angen cefnogaeth; a, thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yng Ngogledd Cymru mae'r themâu canlynol hefyd wedi'u cynnwys; digartrefedd, cyn filwyr a phobl yn yr ystâd ddiogeled, ynghyd â chyswllt i Asesiad o Anghenion Camddefnyddio Sylweddau'r Bwrdd Cynllunio Ardal.

4.5 Rhaid i adroddiad sengl gael ei gynhyrchu ar gyfer Rhanbarth Gogledd Cymru a chael ei gymeradwyo gan Fwrdd y Bwrdd Iechyd Lleol a gan y cyngor llawn ym mhob Awdurdod Lleol. Dylai gael ei gyhoeddi ar 1 Ebrill 2017 ar wefan pob awdurdod lleol a bwrdd iechyd yn Gymraeg a Saesneg, gyda chopi wedi'i anfon at Weinidogion Cymru.

4.6 Mae Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru wedi sefydlu grŵp llywio rhanbarthol i arwain y gwaith gyda grwpiau'n seiliedig ar elfennau technegol, ymgysylltu a themâu i arwain ar dasgau penodol. Caiff y grŵp llywio ei gadeirio gan Jenny Williams, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg, Cyngor Bwrdeistref

Sirol Conwy. Mae aelodau'r grwpiau o bob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae strwythur llywodraethu wedi'i atodi yn atodiad 1.

*Cwmpas a strwythur yr adroddiad*

4.7 Roedd yr adroddiad Asesiad Poblogaeth wedi'i arwain gan ymgysylltu. Roedd yn seiliedig ar adborth gan staff, sefydliadau partner, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd i nodi anghenion strategol ar gyfer gofal a chefnogaeth. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth o strategaethau comisiynu ac asesiadau anghenion presennol. Bu'r tîm prosiect yn casglu tystiolaeth i herio'r damcaniaethau hyn drwy ddadansoddiad data, adolygiadau llenyddiaeth gefndirol, adolygiadau gwasanaeth a gwaith ymgysylltu ychwanegol gyda ffocws.

4.8 Mae'r gofyniad i gynhyrchu adroddiad hygyrch, rhanbarthol mewn terfyn amser byr wedi cyfyngu ar yr hyn y gellir ei gynnwys. Bydd yr adroddiad yn darparu sail dystiolaeth ar gyfer gwasanaethau a strategaethau a bydd yn sail i gyfuno gwasanaethau a chefnogi trefniadau partneriaeth. Dylai fod yn adnodd defnyddiol i gynllunwyr a chomisiynwyr mewn awdurdodau lleol ac iechyd, fodd bynnag, mae'n debygol o fod angen o hyd am strategaethau comisiynu a datganiadau sefyllfa'r farchnad o hyd i nodi gweledigaeth a chynllun lleol ar gyfer gwasanaethau mewn ardal a'r gefnogaeth sydd ar gael i ddarparwyr.

*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

4.9 Rhaid cynhyrchu Asesiad Lles fel gofyniad o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn terfyn amser tebyg i'r Asesiad Poblogaeth. Roedd yr Asesiad Poblogaeth yn edrych ar anghenion gofal a chefnogaeth y boblogaeth tra bod yr Asesiad Lles yn edrych ar ffyniant, iechyd, gwydnwch, cydraddoldeb, diwylliant bywiog, cyfrifoldeb byd-eang a chymunedau cydlynol. Mae gorgyffwrdd rhwng y ddau felly mae'r tîm prosiect yn darparu adroddiadau amlygu i'r pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru am gynnydd yr Asesiad Poblogaeth ac maent yn gweithio gyda swyddogion sy'n gyfrifol am yr Asesiad Lles i osgoi dyblygu gwaith a chynyddu'r defnydd o adnoddau. Mae gwaith ymgysylltu a wnaed ar y cyd ar gyfer y ddau asesiad yn enghraifft.

*Cynllun ardal*

**4.10** Bydd cam nesaf y prosiect yn ymwneud â defnyddio'r Asesiad Poblogaeth i ddatblygu Cynllun Ardal ar gyfer y rhanbarth ac rydym yn aros am y canllawiau am hyn gan Lywodraeth Cymru. Oherwydd y terfynau amser tynn ar gyfer cynhyrchu'r asesiad poblogaeth gall gwaith ar y cynllun ardal olygu rhagor o ymchwil ac ymgynghori i edrych ar ardaloedd blaenoriaeth yn

fanylach cyn cytuno pa ardaloedd i'w blaenoriaethu ar gyfer gwaith rhanbarthol.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Bydd paratoi'r Asesiad Poblogaeth yn darparu dealltwriaeth mwy o lawer i'r awdurdod o anghenion y grwpiau poblogaeth penodol mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw a'n helpu i nodi blaenoriaethau ar gyfer cynllunio a chomisiynu gwasanaethau yn y dyfodol.

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru wedi ariannu Rheolwr Prosiect Rhanbarthol i gefnogi'r prosiect a chostau cysylltiedig gan gynnwys cyfieithu ac ymgysylltiad arbenigol.

6.2 Mae cost i'r awdurdodau lleol, BIPBC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran amser staff i gefnogi'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys staff i wneud gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, staff ac aelodau etholedig a staff i gefnogi'r gwaith o ddadansoddi ac ysgrifennu'r adroddiad. Gwnaed y mwyafrif o'r gwaith hwn rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2016.

6.3 Mae'r brif gost a nodwyd yn ymwneud ag adnoddau staffio. Ar hyn o bryd, mae dau reolwr gwasanaeth yn cynrychioli'r awdurdod wrth barhau â'r gwaith hwn ac mae rheolwr arall yn ymwneud â chynllunio'r prosesau ymgysylltu sydd angen bod ar waith gyda'r grwpiau poblogaeth targed.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Bydd gan yr adroddiad terfynol effaith ar strategaethau atal tlodi drwy wella'r ffordd mae anghenion gofal cymdeithasol ac iechyd yn cael eu diwallu. Mae cysylltiadau cryf rhwng tlodi ac anghydraddoldebau iechyd a dylai'r asesiad poblogaeth helpu i fynd i'r afael â'r rhain. Mae cysylltiadau gyda throsedd ac anhrefn drwy'r bennod ar drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd yr adroddiad hefyd yn ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys cynaliadwyedd.

7.2 Cynhaliwyd Asesiad llawn o Effaith ar Gydraddoldeb ac mae ynghlwm wrth yr adroddiad hwn. (Atodiad 3)

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Roedd ymgysylltiad ar gyfer yr Asesiad Poblogaeth yn cynnwys; holiadur i sefydliadau sy'n gofyn am eu barn a thystiolaeth; canllaw hwylusydd i bartneriaid ei ddefnyddio i redeg grwpiau trafod gyda defnyddwyr gwasanaeth; holiadur i'r cyhoedd sydd ar gael ar wefan y Panel Dinasyddion a chyfweliadau gydag aelodau'r Panel Dinasyddion a gweithdai gyda staff a chynghorwyr a drefnwyd gan bob awdurdod lleol.

8.2 Mae map budd-ddeiliaid wedi'i gynhyrchu a'i adolygu yn rhestru'r holl grwpiau poblogaeth a allai fod angen gofal a chefnogaeth i sicrhau bod gymaint o bobl ag sy'n bosibl yn cael cyfle i roi eu barn. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu gyda grwpiau anodd eu cyrraedd.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd yr asesiad yn helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer gwaith cynllunio strategol a blaenoriaethau ar gyfer gofal a chymorth cysylltiedig ar draws y rhanbarth. Bydd ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i bennu blaenoriaethau a sut mae adnoddau'n cael eu blaenoriaethu i'w hategu.

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Nad oes gan bartneriaid rhanbarthol ddigon o allu neu strwythurau llywodraethu i ddarparu'r prosiect neu ymgysylltu gyda'r broses yn effeithiol. I liniaru bydd unrhyw faterion yn cael eu codi gyda'r grŵp llywio rhanbarthol.

10.2 Na fydd yn bosibl gael cymeradwyaeth gan y chwe chyngor a Bwrdd BIPBC mewn pryd i gyhoeddi ar 1 Ebrill 2017. I liniaru, mae'r tîm prosiect yn bwriadu ymgynghori mor eang ag sy'n bosibl cyn i'r broses gymeradwyo ddechrau ym mis Rhagfyr 2016.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Mae'n hanfodol cael cymeradwyaeth y Cyngor Llawn i'r Asesiad Poblogaeth cyn iddo gael ei fabwysiadu fel y fersiwn derfynol. Bydd angen i'r fersiwn derfynol hon gael ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru a bod ar gael ar wefan y Cyngor Sir.